(Rhoi Trwy Ddebyd Uniongyrchol)

Beth yw Rhoi yn Syth?

Gwasanaeth yw Rhoi yn Syth sy'n galluogi aelodau'r Eglwys yng Nghymru i wneud cyfraniadau rheolaidd at eu dewis blwyf trwy ddebyd uniongyrchol. Gweinyddir y gwasanaeth o Swyddfa'r Dalaith yn rhad ac am ddim i blwyfi. Ar hyn o bryd y mae 1,584 o blwyfolion mewn 234 o blwyfi yn ei ddefnyddio. Bob blwyddyn, cesglir rhoddion Cymorth Rhodd gwerth £711,154 a hawlir ad-daliadau treth o £183,210.

Pwrpas y nodyn hwn yw rhoi gwybod i drysoryddion plwyf ac ysgrifenyddion Cymorth Rhodd am nodweddion y cynllun ac esbonio sut y mae'n gweithio. Gobeithir y bydd hyn yn eich galluogi i ateb y rhan fwyaf o gwestiynau plwyfolion a all fod â diddordeb mewn cyfrannu'n rheolaidd trwy Roi yn Syth. Am y cwestiynau na allwch eu hateb, mae manylion cyswllt yr aelod perthnasol o staff y dalaith, a all eich cynorthwyo, ar derfyn y nodyn hwn.

Sut y mae'n gweithio?

Mae'r cynllun Rhoi yn Syth yn hawdd i aelodau'r Eglwys a phlwyfi ei ddefnyddio.

- Rhaid i'r rhoddwr lenwi ffurflen Ymrwymo a mandat Debyd Uniongyrchol.

  Mae'r ffurflen Ymrwymo yn rhoi manylion y rhoddwr ac yn cadarnhau i ba blwyf y gwneir y rhodd a'i maint. Mae hefyd yn cadarnhau a ellir hawlio Cymorth Rhodd oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ai peidio.

  Mae'r mandat Debyd Uniongyrchol yn dweud wrthym o ba gyfrif y daw'r rhodd ac yn ein hawdurdodi i'w chasglu o'r cyfrif hwnnw. Cesglir y rhodd ar y 6ed o bob mis.

- Wedi inni brosesu'r manylion, anfonir llythyr i'r rhoddwr yn ei atgoffa o nodweddion allweddol y broses ac yn cynnwys hefyd gyflenwad o arian ffug Rhoi yn Syth i'w rhoi ar y plât casglu.

- Cysylltir â'r plwyf y bwriedir iddo dderbyn y rhodd i gael ei fanylion banc yn unol â dymuniad y rhoddwr.

- Os bydd angen newid yr ymrwymiad – ei gynyddu, ei leihau , newid plwyf, newid manylion banc – dylai'r rhoddwr roi gwybod inni mewn ysgrifen neu ebost gan ddyfynnu'r cyfeirif a roddir iddo. Yn dilyn unrhyw newid, anfonir llythyr arall i'r rhoddwr yn cynnwys y manylion diwygiedig.

- Trosglwyddir y rhodd i'r plwyf ychydig ddyddiau wedi iddo adael cyfrif banc y rhoddwr.

- Trosglwyddir yr ad-daliad treth a hawlir oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gyfrif banc y plwyf yn union wedi inni ei dderbyn. Dibynna hyn ar ba bryd y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gwneud y taliad; fel rheol, gwneir hynny yn gyflym.

- Byddwn yn rhoi gwybod yn fisol i Ysgrifenyddion Cymorth Rhodd y plwyfi ar ba ddyddiad y gallant ddisgwyl y telir i'w cyfrif bob rhodd ac ad-daliad treth cysylltiedig â'r cynllun hwn.

- O'r dechrau cyntaf caiff y rhoddwr ddewis cynyddu'r rhodd yn awtomatig bob blwyddyn i gyfateb i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Os yw'n dewis gwneud hyn, fe gaiff lythyr yn cadarnhau'r swm newydd. Bydd pob rhoddwr (a ydyw wedi dewis y cynnydd awtomatig blynyddol ai peidio) yn derbyn datganiad blynyddol yn diolch am ei haelioni dros y flwyddyn a fu. Dangosodd profiad y bydd hyn yn aml yn ysgogi'r rhoddwr i ofyn am i'r rhodd gael ei chynyddu at y flwyddyn sy'n dod.

Sut y diogelir y rhoddwr?

Wrth ddefnyddio'r gwasanaeth Rhoi yn Syth, gall rhoddwyr fod yn dawel eu meddwl na chymerir rhodd o'u cyfrif ond yn unol â'r cytundeb a arwyddasant. Dim ond y rhoddwr a all ofyn am newid y swm, a chadarnheir bob amser unrhyw newid o'r fath mewn llythyr i'r rhoddwr. Yn ychwanegol, bydd trysorydd neu ysgrifennydd Cymorth Rhodd y plwyf dan sylw hefyd yn derbyn datganiad misol yn rhestru'r holl roddion a wnaed i'r plwyf. Ni all neb gael gafael ar yr wybodaeth sydd ar fas data Rhoi yn Syth ond yr aelodau hynny o staff Corff y Cynrychiolwyr y mae'n rhaid iddynt ei gweld i redeg neu gynnal y cynllun.

Pa fudd yw'r cynllun i'r plwyf?

Mae Rhoi yn Syth yn wasanaeth rhad ac am ddim i bob aelod eglwysig. Mae'r manteision i'r plwyf o annog aelodau i roi trwy Roi yn Syth yn amlwg:

- Mae'r plwyf yn derbyn incwm misol rheolaidd, a gall fod yn sicr yr hawlir yr ad-daliad treth ar yr incwm hwnnw.

- Staff y Dalaith sy'n gwneud y gwaith gweinyddu y mae ei angen i hawlio'r ad-daliad treth ar y symiau a roddir, a chaiff swyddogion y plwyf ddatganiad bob mis. Bydd yn rhaid gwneud Datganiad Cymorth Rhodd arall ynglŷn ag unrhyw rodd ychwanegol a wna'r rhoddwr i'r plwyf (trwy siec, amlen wythnosol neu Orchymyn Sefydlog).

- Dengys ystadegau fod plwyfolion sy'n defnyddio'r cynllun Debyd Uniongyrchol yn rhoi symiau mwy i'w plwyf na'r rhai sy'n defnyddio dulliau eraill. Fel y nodwyd uchod, y mae llawer yn dewis y cynnydd awtomatig blynyddol; bydd eraill yn cynyddu eu rhodd ar ôl derbyn y llythyr diolch y byddwn yn ei anfon.

Cysylltydd Taleithiol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth Rhoi yn Syth, cysylltwch â Glenda Edwards yn Swyddfa'r Dalaith trwy ffôn 029 20348216 neu ebost glendaedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

(**G**ive **W**ith **A** **D**irect **D**ebit)

What is Gift Direct?

Gift Direct is a facility which enables Church in Wales members to make regular donations to the parish of their choice via direct debit. The facility is administered from the provincial office and is a free service to parishes. At present there are 1,584 parishioners from 234 parishes taking advantage of this facility. The annual Gift Aid donations currently collected are £711,154 and the tax reclaimed £183,210.

The purpose of this note is to provide information to parish treasurers and Gift Aid secretaries on the features of the scheme and an explanation of how it works. It is hoped that this will enable you to deal with most enquiries from parishioners who might be interested in making their regular donation via Gift Direct. For those questions that you are unable to answer, there are contact details at the end of this note for the appropriate member of the provincial staff, who will be able to help you.

How does it work?

The Gift Direct scheme is easy for church members and parishes to use.

- The donor needs to complete a Commitment form and a Direct Debit mandate.

  The Commitment form gives the donor details, confirms to which parish the donations are to be made and the amount of the donation. It also confirms whether or not a Gift Aid claim can be made to Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC).

  The Direct Debit mandate informs us of the account from which the donations are to be made, and gives us the authority to collect the donation from that account. The donation is taken on the 6th of each month.

- When we have processed the details a letter is sent to the donor reminding them of the key features of this process along with a supply of Gift Direct tokens for use in the collection plate.

- The intended recipient parish is contacted to obtain bank details in accordance with the donor's wishes.

- If any change is required to the commitment – increase, decrease, change to the recipient parish, amendment to bank details – we should be informed by the donor in writing or by email quoting the reference number that the donor is given. Any change will initiate a new letter containing the amended details to be sent to the donor.

- The donation is passed to the parish a few days after it leaves the donor's bank account.

- The tax, which we reclaim from the HMRC, is forwarded directly to the parish bank account upon receipt. This is dependent upon HMRC returning the tax to us; their turnover rate is normally swift.

- We inform the parish Gift Aid Secretary on a monthly basis of the dates that they can expect all donations and tax associated with this scheme to be paid into their account.

- At the outset the donor is given the option of increasing his or her donation automatically each year in line with the Retail Price Index. If they choose to do so, they will receive a letter confirming the new amount. All donors (regardless of whether or not they have opted for the automatic annual increase) receive an annual statement thanking them for their generosity during the previous year. Experience shows that this will often prompt donors to ask for their donation to increase the following year.

What safeguards are there for donors?

Donors can be confident in using the Gift Direct facility that a donation will only be taken from their account in accordance with the agreement they have signed. Only the donor can request that the amount change, and any change to the amount of the donation is always confirmed by letter to the donor. In addition, the parish treasurer or Gift Aid secretary of the parish concerned also receives a monthly statement setting out all donations to their parish. The information held on the Gift Direct database may only be accessed by those Representative Body staff that require access to run or to maintain the system.

What are the benefits of the scheme to the parish?

Gift Direct is a free facility available to all church members. The benefits to the parish of encouraging members to give via Gift Direct are evident:

- The parish receives a regular monthly income, and can be assured that tax relief will be claimed on that income.

- The administration required to claim tax relief on giving via the scheme is carried out by provincial staff, with parish officers receiving a monthly statement. Any other Gift the donor makes to their parish (by cheque, weekly envelope or Standing Order) will need to be covered by a Gift Aid Declaration in favour of the parish. The parish will then deal directly with HMRC in order to reclaim the tax.

- Statistics show that parishioners using the Direct Debit scheme donate a larger amount to their parish than those using other methods. As mentioned above, many donors opt for the automatic annual increase and others increase their donation on receipt of the annual thank you letter that we send.

Provincial Contact

If you have any questions about the Gift Direct facility please contact Glenda Edwards at the provincial office by telephone 029 20348216 or email glendaedwards@churchinwales.org.uk.